Retrofit

# Cwestiynau Cyffredin Tenantiaid

Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

# Cynnwys


1. Cefndir
2. Pwy sy'n gwneud beth?
3. Y drefn
4. Apwyntiadau
5. Yn ystod y gwaith
6. Ar ôl y gwaith
7. Unrhyw fater arall

# Cefndir

## Beth yw Retrofit, neu Rhaglen Ôl-osod?

Mae Retrofit, neu Rhaglen Ôl-osod yn anelu at ddatgarboneiddio cartrefi. Mae'n edrych ar y tŷ cyfan, o beth mae wedi'i wneud, sut mae gwres yn cael ei ddefnyddio a sut mae ynni'n cael ei storio. Mae hefyd yn ystyried sut mae ynni yn cyrraedd ein cartrefi. Y nod yw lleihau biliau gwresogi a gwella cynhesrwydd a chysur eich cartref.

Mae Retrofit yn llawer mwy soffistigedig a phwrpasol na chynlluniau blaenorol. Mae'n cael ei redeg gan Lywodraeth Cymru.

## Beth mae'n ei olygu i chi a'ch cartref…

Fel y gwyddoch, mae eich cartref yn rhan o'r rhaglen newydd gyffrous hon. Trwy Retrofit, bydd eich landlord, Grŵp Cynefin, yn adnewyddu ac uwchraddio elfennau o'ch cartref i'w wneud yn fwy cyfforddus, yn fwy effeithlon, a lleihau eich biliau ynni gobeithio.

Bydd gwella eich cartref fel hyn yn golygu rhywfaint o anghyfleustra i chi, ond mae Grŵp Cynefin yn hyderus y byddwch yn gweld ac yn mwynhau'r gwelliant a ddaw yn sgil y cynllun.

Mae'r daflen hon yn esbonio:

- beth mae'r gwaith yn ei olygu
- pwy fydd yn gwneud y gwaith
- sut y gallwch chi ein helpu
- gyda phwy i gysylltu

## Pam fod eich cartref wedi cael ei ddewis ar gyfer Retrofit?

Mae Grŵp Cynefin wedi edrych ar yr holl eiddo y mae'n eu rheoli a'u blaenoriaethu yn unol â Graddfa Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC). Mae gan y rhai a ddewisir sgôr EPC o D, E, F a G a byddant yn cael eu huwchraddio i C erbyn 2030 fan bellaf.

Gall unrhyw un nad yw'n rhan o'r cynllun gael cymorth a chyngor ar faterion ynni a materion ariannol gan Grŵp Cynefin. Mae croeso i chi gysylltu.

## Sut byddwch chi fel tenant Grŵp Cynefin yn elwa?

Ein dull o fynd i'r afael â'r dasg yw targedu'r cartrefi sydd angen y gwelliannau mwyaf yn gyntaf. Rydym yn cynnal arolwg o'r cartrefi hynny a'n nod yw insiwleiddio waliau a llofftydd i helpu i leihau biliau gwresogi.

Yn ogystal â mesurau arloesol eraill, gall cynllun Retrofit ariannu gwelliannau gwresogi fel

- Pympiau gwres ffynhonnell aer
- Gwresogyddion modern i storio gwres uchel
- Paneli Solar
- Batri Storio Trydan

Bydd arolwg o'ch cartref yn penderfynu beth sy'n addas ac yna bydd y cwmni gosod yn cynnal arolwg technegol i fesur a chostio'r gwaith.

## O ble mae'r cyllid yn dod?

Cyllid grant gan Lywodraeth Cymru drwy Raglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP).

## Ble galla i gael mwy o wybodaeth am y cynllun?

Ewch i adran tenantiaid Fy Nghartref ar wefan Grŵp Cynefin lle mae rhan wedi ei neilltuo i Retrofit.

# Pwy sy'n gwneud beth?



# Pwy sy'n gwneud beth?

## Grŵp Cynefin

Fel eich landlord, Grŵp Cynefin sy'n gyfrifol am eich cartref ac am weithredu'r cynllun Retrofit yn eich cartref.

## Cyd Innovation

Cyd Innovation yw ein partneriaid strategol. Byddant yn helpu Grŵp Cynefin i adnabod eiddo i gael eu cynnwys yn y cynllun Retrofit ac yn dod o hyd i arian grant i gefnogi'r cynllun.

## LiteGreen

LiteGreen (o Wrecsam) yw'n partner syrfewyr. Nhw fydd yn cynnal yr asesiadau Retrofit ac adnabod gwelliannau y gellir eu gwneud i'ch cartref. Byddant hefyd yn helpu gydag agweddau technegol a chydymffurfio.

## Wall-Lag

Wall-Lag (a leolir yn yr Wyddgrug) yw'r cwmni a fydd yn cyflenwi ac yn gwneud y gwaith gosod.

## Manylion cyswllt

- **Grŵp Cynefin – 0300 111 2122 / post@grwpcynefin.org**
- **Cyd Innovation – 01352 748876**
- **Wall-Lag – 01352 758812**
- **LiteGreen – 0330 175 6505**

# Sut gallwch chi gofrestru canmoliaeth, neu gwyn

Cysylltwch â Grŵp Cynefin drwy ffonio 0300 111 2122 neu drwy fynd i'n gwefan drwy sganio'r cod QR isod neu fynd yma www.grwpcynefin.org/amdanom-ni/canmol-neu-gwyno/

Retrofit

# Y Broses



## Beth yw asesiadau Retrofit a beth yw'r broses?

Rhaid i'r cynlluniau gynnwys arolwg a chynllun pwrpasol ar gyfer pob eiddo. Mae LiteGreen yn trefnu'r arolygon yma. Byddant yn cysylltu â chi trwy lythyr ac yna galwad ffôn (dim mwy na thri) a dau e-bost i drefnu arolwg.

Os na ellir trefnu arolwg yn dilyn hyn, bydd y tenant yn cael ei gyfeirio at Grŵp Cynefin am gefnogaeth. Mae pob arolwg yn cymryd tua 1.5 awr. Mae'r canlyniadau'n mynd i Dîm Rheoli Asedau Grŵp Cynefin sy'n penderfynu pa waith sy'n cael ei wneud a phryd.

## Sut bydda i'n gwybod os ydi'r gwaith yn digwydd?

Byddwch yn clywed gan y contractwr (Wall-Lag) os bydd gwaith ar eich tŷ yn mynd yn ei flaen. Unwaith bydd wedi ei gymeradwyo gan y Tîm Rheoli Asedau, bydd Wall-Lag yn ysgrifennu atoch ac yn trefnu ymweliad i gyflwyno eu hunain ac i egluro'r gwaith a'r hyn sydd ei angen. Bydd llyfryn cynllun dwyieithog yn cael ei ddarpau a bydd dyddiad ar gyfer y gwaith gosod yn cael ei benderfynu.

## A oes gennych hawl i wrthod gwaith?

Bydd y gwaith yn lleihau biliau gwres ac yn gwneud eich cartref yn fwy cynnes a chlyd, ac felly mae Grŵp Cynefin yn awyddus iawn i gwblhau'r cynllun yn y cartrefi a ddewiswyd. Dylid rhoi cynnig ar bob opsiwn cyn y gall tenant optio allan o'r cynllun. Bydd Wall-Lag yn gofyn am gefnogaeth gan Swyddogion Tai Grŵp Cynefin i weithio gyda'r tenantiaid sy'n gwrthwynebu'r cynllun, yn y gobaith y byddant yn ymuno. Os, ar ôl rhoi cynnig ar bob opsiwn, bydd tenant yn dal i wrthod, yna mae'n bosibl y caiff yr eiddo ei dynnu o'r cynllun neu ei symud i ran hwyrach o'r cynllun.

## Pa mor hir mae'r broses yn ei gymryd?

Ni ddylai gymryd mwy na chwe wythnos o'r pwynt pan gaiff y gwaith ei gytuno rhwng Grŵp Cynefin a Wall-Lag hyd at gwblhau'r gwaith – mae'n dibynnu ar y tywydd yn achos inswleiddio waliau solet.

Retrofit

# Apwyntiadau

## Beth fydd yn digwydd os bydd newid yn y cynllun a bod angen i mi newid fy apwyntiad asesu gyda LiteGreen?

Gall pethau newid ac os oes angen i denant aildrefnu eu hapwyntiad, gallant gysylltu â LiteGreen yn uniongyrchol ar 0330 175 6505.

## Os na all LiteGreen gadw eu hasesiad ôl-osod, sut y caf wybod?

Bydd cynrychiolydd o LiteGreen yn cysylltu â chi i aildrefnu.

## Beth fydd yn digwydd os bydd newid yn y cynllun a bod angen i mi newid fy nyddiad gosod?



Os oes angen i chi aildrefnu'r apwyntiad gosod, gallwch gysylltu â Wall-Lag yn uniongyrchol. Bydd eich apwyntiad yn cael ei gadarnhau y diwrnod cynt i wneud yn siŵr ei fod yn dal yn gyfleus.

## Os na all Wal-Lag gadw eu dyddiad gosod, sut y byddaf yn cael gwybod?

Bydd Wall-Lag yn cadarnhau'r dyddiad cychwyn a drefnwyd yn ysgrifenedig naill ai drwy e-bost neu lythyr yn dibynnu ar eich dewis. Bydd unrhyw newid mewn cynlluniau yn cael ei drafod a'i gadarnhau'n ysgrifenedig.

## Gofynnwch am fathodyn adnabod!

Bydd gan holl staff Grŵp Cynefin, LiteGreen a Wall Lag fathodynnau adnabod gyda lluniau swyddogol arnynt. Os oes gennych unrhyw amheuaeth am y bobl ar garreg eich drws, yna mae croeso i chi gysylltu i wneud yn siŵr - ffoniwch y rhifau yn y llyfryn yma.

# Yn ystod y gwaith



## Beth am addurno?

Os bydd y gwaith ôl-osod yn tarfu ar unrhyw arwyneb, caiff ei atgyweirio. Bydd unrhyw waith addurno ychwanegol o ganlyniad uniongyrchol i'r gwaith ôl-osod yn cael ei asesu fesul eiddo. Gall hyn gynnwys talebau addurno.

## Beth os oes gen i bethau yn fy atig y mae angen help i'w symud?


Gofynnir i chi fel tenant glirio'r atig os oes angen. Os na allwch symud rhai eitemau, efallai y gofynnir i'r contractwr roi help llawr. Os felly, gofynnir i'r tenant lofnodi ymwadiad difrod. Os na chaiff eitemau eu symud yn ôl y gofyn, gallai hyn atal gwaith rhag digwydd.

Yn dilyn gwaith ôl-osod mewn atig, efallai y gofynnir i chi beidio â mynd i'r atig na storio unrhyw beth yno o hynny ymlaen.

## Carpedi a gorchuddion laminedig

Os ydych chi'n cael gwres canolog neu waith gwifrau trydanol, efallai y bydd angen i ni godi'r gorchuddion llawr a'u hailosod wedyn. Mi weithiwn gyda chi i wnedu hyn mor hawdd â phosib.

## Dodrefn



Bydd ein gweithwyr yn cymryd pob gofal, ond byddwn yn disgwyl i chi ddiogelu eich dodrefn, addurniadau, lluniau, lampau, ac ati ac unrhyw eitemau cain neu werthfawr eraill yn yr ystafelloedd y byddwn yn gweithio ynddynt. Bydd hyn yn lleihau'r risg o unrhyw ddifrod damweiniol na fydd y contractwr yn gyfrifol amdano.

Os oes angen help arnoch i symud unrhyw eitemau na allwch eu symud eich hun, siaradwch â'r Swyddog Cyswllt cyn i'r gwaith ddechrau. Os bydd angen cymorth, gofynnir i chi lofnodi ymwadiad difrod.

## Offer Cegin / Nwyddau Gwyn

Os oes gwaith yn digwydd yn eich cegin neu unrhyw ystafell arall lle cedwir nwyddau gwyn, efallai y bydd angen symud eich offer cegin neu nwyddau gwyn, gan gynnwys popty, o'r man gweithio i ystafell neu ardal gyfagos. Os yw'n bosibl a'i bod yn ddiogel gwneud hynny, dim ond nwyddau gwyn y gellir eu gadael ymlaen pan fydd y gwaith yn mynd rhagddo. Gellir eu symud yn ôl unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau neu'n ddyddiol os oes angen. Os caiff poptai eu symud, lle bo hynny'n bosibl, cânt eu datgysylltu, eu symud yn ôl a'u hailgysylltu bob dydd er mwyn caniatáu ichi goginio y tu allan i oriau gwaith Wall–Lag.

## A oes rhywle i mi fynd tra bydd y gwaith yn cael ei wneud?

Bydd Wall-Lag yn darparu ateb os yw'r gwaith yn amharu'n sylweddol, er enghraifft, sŵn gormodol, ac yn niweidiol i les y tenant. Dylai tenantiaid ag anghenion o'r fath fod wedi cael eu trafod ymlaen llaw, gyda Swyddogion Tai priodol Grŵp Cynefin.

## Mynediad

Mae angen mynediad clir a diogel i'r meysydd gwaith drwy gydol y gwaith, rhwng 8am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Os oes gennych unrhyw broblemau gyda darparu mynediad rhwng yr amseroedd hyn am unrhyw reswm, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl.

## Allweddi

Rydym yn argymell eich bod yn bresennol yn ystod y gwaith ar eich cartref, ond rydym yn deall nad yw bob amser yn bosibl. Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig gwasanaeth cadw allweddi. Mae angen i chi roi gwybod i yswirwyr eich tŷ fod gennym set o allweddi i'ch eiddo.

Ni allwn gynnig y gwasanaeth cadw allweddi oni bai eich bod wedi gwneud hynny.

## Paent a Phlastr

Ceisiwch osgoi mynd yn agos at neu gyffwrdd unrhyw arwyneb gorffenedig er mwyn osgoi difrodi'ch dillad a'r gwaith sydd wedi'i wneud. Byddwn yn gadael i chi wybod pan fydd yn saff i chi wneud hynny.

## Iechyd a Diogelwch

- Cadwch ardaloedd gwaith yn rhydd o fwg sigaréts
- Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw broblemau iechyd a allai gael eu heffeithio gan y gwaith
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod sut mae ein bathodynnau adnabod yn edrych a gofynnwch am eu gweld bob amser
- Byddwch yn ofalus o amgylch offer a deunyddiau a pheidiwch byth â chyffwrdd unrhywbeth (bydd yr holl ddeunyddiau ac offer yn cael eu cadw ar ddiwedd pob diwrnod)
- Cyn i'r gwaith ddechrau, rhowch unrhyw bethau gwerthfawr personol dan glo. Byddwn yn trin unrhyw honiadau o ladrad o ddifrif a byddwn bob amser yn hysbysu'r heddlu mewn achos o'r fath.

## Trydan, Dŵr a Nwy

- Gwrandewch bob amser ar y cyfarwyddiadau a roddir i chi gan y trydanwr / peiriannydd sy'n gweithio yn eich cartref
- Peidiwch â throi gwasanaethau yn ôl ymlaen os wedi eu diffodd. Byddwn wedi eu diffodd am reswm a byddwn yn eu troi yn ôl ymlaen pan fydd yn ddiogel i wneud hynny
- Efallai y bydd socedi a switshis yn cael eu gadael yn rhydd o waliau er mwyn i arwynebau allu sychu. Bydd y trydanwr/peiriannydd yn dweud wrthych beth y gellir ei ddefnyddio a bydd hefyd yn sicrhau bod gennych bŵer ar ddiwedd pob dydd.

## Plant

- Cadwch blant draw o ardaloedd gwaith, offer a chyfarpar bob amser
- Gwnewch yn siŵr nad ydynt yn dringo sgaffaldiau
- Symudwch eu teganau o ardaloedd gwaith
- Peidiwch byth â gadael eich plant heb oruchwyliaeth yn eich cartref tra bod gwaith yn cael ei wneud.

## Anifeiliaid anwes

- Cadwch anifeiliaid anwes draw o ardaloedd gwaith, yn ddelfrydol mewn rhan ddiogel o'r ardd neu ystafell ar wahân
- Rhowch wybod i ni os yw eich anifeiliaid anwes yn amheus o ddieithriaid neu ymwelwyr.

# Ar ôl y gwaith



## A oes polisi diffygion a pha gymorth sydd ar gael drwy gydol y cyfnod hwn?

Mae cyfnod atebolrwydd diffygion o 12 mis o'r dyddiad trosglwyddo unwaith bydd y gwaith wedi'i gwblhau. Os ydych angen cefnogaeth neu os oes diffyg, cysylltwch â Grŵp Cynefin ar y rhif arferol.

## Pecynnau trosglwyddo

Ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau, byddwch yn cael pecyn trosglwyddo sy'n cynnwys gwybodaeth am y mesurau a osodwyd, mesurau gweithredu a beth i'w wneud os bydd diffygion. Hefyd yn y pecyn bydd gwybodaeth am gymorth pellach ar sut i newid cyflenwr ynni, cymorth grant ychwanegol (h.y. taliad tanwydd gaeaf neu ddisgownt cartrefi cynnes ac ati) a sut i gofrestru os yn gymwys ar gyfer y Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth.

Ymhen 8 i 12 wythnos ar ôl hynny, bydd Wall-Lag neu Warden Ynni Grŵp Cynefin yn cysylltu â chi i wneud yn siŵr bod gennych yr holl gefnogaeth sydd ei angen arnoch a'ch bod yn deall sut i ddefnyddio unrhyw systemau newydd.

Retrofit

# Unrhyw fater arall

## Dewis Iaith

Mae gan y contractwr, Wall-Lag, ymrwymiad i:

- Ddarparu cyfathrebiadu gweledol clir (h.y. diagramau)
- Cynhyrchu cyfathrebiadau amlieithog
- Cynnig gwasanaethau dehongli (h.y. Language Line Solutions)
- Gofyn i ffrind neu aelod o'r teulu sy'n siarad Saesneg/Cymraeg fod yn bresennol yn ystod trafodaethau

## Ar gyfer eich nodiadau...

Gallwn ddarparu gwybodaeth mewn fformatau eraill gan gynnwys print, print bras, tâp sain a Braille. Cysylltwch â Grŵp Cynefin i drefnu.

Sganiwch hwn
i fynd i adran
Retrofit ar ein
gwefan

Stamp Sêl Bendith TENANT

Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing